# Cwestiynau Cyffredin: Categoreiddio

## Gorffennaf 2026

**A fydd y gofrestr a'r rhestr yn cael eu diweddaru?**

Mae'n ofynnol i Ofcom gadw'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio a'r rhestr Categori 1 sy'n dod i'r amlwg yn gyfredol. Golyga hyn y gallai gwasanaethau gael eu hychwanegu at y gofrestr a'r rhestr neu eu tynnu oddi arni wrth i'r dirwedd ar-lein esblygu.

Mewn rhai achosion, rydym wedi ceisio gwybodaeth ychwanegol gan ddarparwyr gwasanaeth i gefnogi asesiadau parhaus a agorir at ddibenion sefydlu'r gofrestr. Rydym yn y broses o gwblhau ein hasesiadau o'r gwasanaethau hyn a chyn gynted ag y bydd yr asesiadau hyn wedi'u cwblhau, byddwn yn diweddaru'r gofrestr lle bo angen.

Yn barhaus, rydym yn disgwyl y byddwn yn cynnal adolygiadau a diweddariadau rheolaidd o'r gofrestr a'r rhestr. Bydd yr adolygiadau hyn yn cael eu hategu â diweddariadau ad hoc lle bo angen, er enghraifft lle byddwn yn dod yn ymwybodol o newidiadau a allai effeithio ar y gwasanaethau sydd ar y gofrestr a'r rhestr (gan gynnwys yn dilyn cais am dynnu oddi ar y darparwr gwasanaeth sydd eisoes ar y gofrestr), neu lle byddwn yn nodi bod gwasanaethau'n debygol o fodloni'r amodau trothwy ar gyfer y gofrestr,  neu amodau ar gyfer y rhestr.

Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am ein dull o ddiweddaru'r gofrestr a'r rhestr maes o law.

**Sut penderfynwyd ar yr amodau trothwy?**

Gosodwyd yr amodau trothwy categoreiddio mewn rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn 2025. Roedd yn ofynnol i Ofcom ddarparu ymchwil a chyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar amodau trothwy categoreiddio i lywio'r broses hon. Cyflwynwyd ein hymchwil a'n cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Chwefror 2024.

**A fydd gwasanaeth sy'n tyfu'n gyflym yn cael ei ychwanegu at y gofrestr?**

Ar gyfer gwasanaethau sydd eisoes yn gweithredu heddiw, mae'r amodau trothwy yn golygu bod angen i wasanaeth gael nifer o ddefnyddwyr misol cyfartalog yn y DU dros nifer penodol, am gyfnod sydd o leiaf 6 mis. Lle mae gwasanaeth wedi bod ar waith am lai na 6 mis, gellir asesu'r amodau trothwy sy'n ymwneud â niferoedd defnyddwyr ar gyfer y cyfnod ers lansio'r gwasanaeth.

Lle mae gwasanaethau'n tyfu'n gyflym, byddwn yn cadw eu twf yn nifer y defnyddwyr dan adolygiad a byddwn yn agor asesiadau ar y pwynt priodol lle bo'n berthnasol.

**A fyddwch chi'n cyhoeddi'r penderfyniadau unigol ar gyfer pob gwasanaeth?**

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar gyfer pob gwasanaeth wedi'i gategoreiddio yn y misoedd nesaf. Byddwn yn cynnal proses gyfrinachedd gyda darparwyr gwasanaeth a byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau.

**A yw bod ar y gofrestr yn golygu bod gwasanaeth yn beryglus?**

Mae gwasanaethau'n cael eu rhoi ar y gofrestr pan fyddant yn bodloni'r amodau trothwy a osodwyd gan y Llywodraeth. Mae'r trothwyon hyn yn ymwneud â nifer y defnyddwyr gwasanaeth yn y DU yn

unig, a swyddogaethau a/neu nodweddion (lle bo'n berthnasol) y gwasanaeth. Wrth osod y trothwyon, roedd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y meini prawf canlynol:

- Categori 1: effaith debygol nifer o ddefnyddwyr a swyddogaethau gwasanaeth ar ba mor hawdd, cyflym ac eang y caiff cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn cael ei ledaenu ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr
- Categori 2A: effaith debygol nifer o ddefnyddwyr y peiriant chwilio ar lefel y risg o niwed o gynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon neu'n niweidiol i blant
- Categori 2B: effaith debygol nifer o ddefnyddwyr a swyddogaethau gwasanaeth ar lefel y risg o niwed i unigolion o gynnwys sy'n anghyfreithlon neu'n niweidiol i blant a ledaenir trwy gyfrwng y gwasanaeth.

**Pam nad yw gwasanaethau bach a pheryglus wedi'u cynnwys ar y gofrestr?**

Mae'r amodau trothwy a osodwyd gan y Llywodraeth yn golygu mai dim ond gwasanaethau â sylfaen ddefnyddwyr mawr yn y DU a swyddogaethau a/neu nodweddion penodol sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr. Ni allwn gynnwys gwasanaeth ar y gofrestr os nad oes ganddynt ddigon o ddefnyddwyr y DU i fodloni'r amodau trothwy. Y trothwyon nifer defnyddwyr ar gyfer gwasanaethau Categori 1 yw 7 miliwn neu 34 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol yn y DU (yn dibynnu ar swyddogaethau), 7m ar gyfer gwasanaethau Categori 2A, neu 3 miliwn ar gyfer gwasanaethau Categori 2B.

Nid yw hyn yn ein hatal rhag cymryd camau mewn perthynas â gwasanaethau llai, peryglus. Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth sy'n gwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein gymryd camau mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon, ac, lle bo'n berthnasol, cynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae gennym ystod o offer rydym yn eu defnyddio gyda gwasanaethau i sicrhau newid a gwella cydymffurfiaeth, gan gynnwys cymryd camau gorfodi lle bo'n briodol.

**Pam fod ystod o wahanol fathau o wasanaethau wedi'u cynnwys yn y gofrestr?**

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn berthnasol i nifer fawr o wasanaethau ar-lein, ar draws ystod eang o wahanol fathau o ddefnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio. Mae llawer o wasanaethau'n rhannu swyddogaethau a nodweddion tebyg, fel defnyddio systemau argymell cynnwys neu'r gallu i ddefnyddwyr anfon negeseuon at ei gilydd.

Ein rôl ni yw asesu gwasanaethau yn erbyn yr amodau trothwy a nodir yn y rheoliadau categoreiddio, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Pan fo gwasanaethau'n bodloni'r trothwyon, mae'n ofynnol i Ofcom ychwanegu'r gwasanaethau hyn at y gofrestr.

**Beth yw pwrpas y rhestr Categori 1 sy'n dod i'r amlwg?**

Mae'r rhestr Categori 1 sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys gwasanaethau sy'n agos at, ond nad ydynt ar hyn o bryd yn bodloni, yr amodau trothwy ar gyfer gwasanaethau Categori 1. Gall gwasanaethau fod ar y rhestr oherwydd bod ganddynt sylfaen ddefnyddwyr mawr yn y DU, ond nid y swyddogaethau a'r nodweddion perthnasol sydd eu hangen. Fel arall, gallai gwasanaethau fod ar y rhestr oherwydd, er bod gan y gwasanaeth y swyddogaethau a'r nodweddion perthnasol, nid yw sylfaen defnyddwyr y DU eto'n rhagori ar y trothwy. Nid yw gwasanaethau ar y rhestr Categori 1 sy'n dod i'r amlwg yn destun i unrhyw ddyletswyddau ychwanegol.

**Sut ydych chi wedi ystyried dyfarniad Wicipedia?**

Roedd rheoliadau'r Llywodraeth a osododd yr amodau trothwy ar gyfer categoreiddio yn destun her gyfreithiol, a ddaeth i ben ym mis Awst 2025. Arhosodd yr amodau trothwy yn eu lle yn dilyn yr her hon. Ystyriwyd y dyfarniad yn ofalus fel rhan o'n proses gwneud penderfyniadau ac addaswyd ein cynlluniau ar gyfer y gofrestr gategoreiddio yn unol â hynny. Cyhoeddwyd penderfyniadau dros dro i ddarparwyr ym mis Mawrth 2026, a roddodd gyfle i'r darparwyr gwasanaethau yr oeddem yn credu eu bod yn bodloni'r amodau trothwy roi sylwadau ar ein penderfyniadau dros dro cyn i ni gwblhau'r gofrestr.

**A gafodd gwasanaethau gyfle i gyfrannu at y broses?**

Rydym wedi defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i geisio gwybodaeth gan ddarparwyr gwasanaeth mewn perthynas â'r amodau trothwy. Defnyddiwyd y wybodaeth hon, ynghyd ag ymchwil fewnol a data trydydd parti, yn ein hasesiadau o bob gwasanaeth.

Diwedd mis Mawrth, rhoddwyd cyfle i'r darparwyr gwasanaethau yr oeddem yn ystyried dros dro eu bod yn bodloni'r amodau'r trothwy wneud sylwadau ar ein penderfyniadau dros dro cyn i ni gwblhau'r gofrestr a'r rhestr.

**A all darparwyr gwasanaeth apelio yn erbyn eu statws categoreiddio a beth mae hynny'n ei olygu os ydynt yn gwneud hynny?**

Ar gyfer gwasanaethau ar y gofrestr, bydd gan ddarparwyr gwasanaeth fis i apelio yn erbyn ein penderfyniadau yn yr Uwch Dribiwnlys, o ddyddiad derbyn ein penderfyniad. Os yw darparwr gwasanaeth yn apelio yn erbyn ein penderfyniad categoreiddio, yna bydd y dyletswyddau ychwanegol perthnasol yn cael eu hatal dros dro hyd nes bod yr apêl wedi'i datrys.

Ar gyfer gwasanaethau ar y rhestr Categori 1 sy'n dod i'r amlwg, bydd gan ddarparwyr gwasanaethau dri mis i gyflwyno adolygiad barnwrol o'n penderfyniadau yn yr Uchel Lys, o ddyddiad derbyn ein penderfyniad.

Ar unrhyw adeg, gall darparwyr gwasanaethau ar y gofrestr ddarparu tystiolaeth i Ofcom nad yw eu gwasanaethau wedi'u categoreiddio bellach yn bodloni'r amodau trothwy perthnasol. Rhaid i Ofcom ystyried y wybodaeth hon ac os ydym o'r farn bod newid wedi bod i'r gwasanaeth sy'n debygol o fod yn berthnasol, asesu'r gwasanaeth i benderfynu a ddylid ei dynnu oddi ar y gofrestr, neu a yw'r dystiolaeth yn cefnogi gwasanaeth sy'n bodloni'r amodau trothwy ar gyfer categori gwahanol.